

Hysbysiad Preifatrwydd CGGC: Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion

CYFLWYNIAD

Rydym yn trin preifatrwydd a chyfrinachedd yn ddifrifol iawn. Rydym wedi datblygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn i fod mor dryloyw â phosibl ynglŷn â gwybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio. Rydym yn cydymffurfio â fframwaith deddfwriaethol diogelu data y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), wedi'i deilwra gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn ofalus a chysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch ein harferion preifatrwydd.

PWY YDYM NI?

Ni yw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Elusen Gofrestredig (rhif 218093) a Chwmni Cyfyngedig drwy Warant (rhif 425299). Mae CGGC yn Rheolydd Data cofrestredig gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), rhif cofrestru Z6141301.

Mae gennym Swyddog Diogelu Data yn CGGC sy'n goruchwyllo ein gweithgareddau prosesu: Emma Waldron yw'r unigolyn hwnnw, a gellir cysylltu â hi drwy e-bost yn dpo@wcva.cymru neu dros y ffôn 0300 111 0124.

PWY YW'R RHEOLYDD DATA?

Y Rheolydd Data sy'n pennu'r diben o brosesu data a sut y gwneir hynny. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ond nid ydynt angen gwybodaeth bersonol o fewn yr adroddiadau y mae'n rhaid i ni eu darparu. CGGC yw'r Rheolydd Data.

DIBENION PROESU EICH DATA

Rydym yn casglu manylion cyswllt amdanoch er mwyn gallu cyfathrebu â chi ynghylch eich cais a'ch cyfraniad cyfredol tuag at y prosiect. Gellir gwneud hyn drwy ohebiaeth gyffredinol dros e-bost.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion gweinyddol, ac er mwyn archwilio a monitro'r cyllid, a dim ond yn datgelu eich gwybodaeth i'n cyllidwyr neu bartneriaid cyflenwi at ddibenion ymchwil, gwirio neu i gynnig cymorth â'r broses ymgeisio.

SUT YDYM YN CASGLU EICH GWYBODAETH BERSONOL

Ar gyfer Hyfforddwr: Pan fyddwch yn gwneud cais i fod yn ymgynghorydd ar y prosiect, byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch fel rhan o'r broses ymgeisio.

Ar gyfer mudiadau: Pan fydd eich mudiad yn gwneud cais am gymorth gan brosiect Catalydd Cymru, byddwn yn casglu gwybodaeth am eich mudiad a chysylltiadau allweddol.

PA GATEGORÏAU O DDATA PERSONOL BYDDWN YN EU CASGLU A'U DEFNYDDIO?

Ar gyfer Hyfforddwr	Ar gyfer mudiadau
<ul style="list-style-type: none">• Eich enw• Eich manylion cyswllt (yn cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost)• Eich profiadau blaenorol mewn perthynas â'r gwaith ymgynghori• Eich gallu i siarad Cymraeg• Unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn ei rhoi i ni.	<ul style="list-style-type: none">• Enwau unigolion perthnasol• Manylion cyswllt (yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost) unrhyw unigolion perthnasol• Eich rôl o fewn eich mudiad a/ neu brosiect wedi'i ariannu• Unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn ei rhoi i ni.

Bydd data personol pobl a fynychodd hyfforddiant a ddarparwyd gan raglen Catalydd Cymru hefyd yn cael ei gasglu. I weld hysbysiadau preifatrwydd perthnasol CGGC, [edrychwch yma o ran ein CRM](#) ac [yma ar gyfer ein system archebu hyfforddiant](#).

Y SAIL GYFREITHIOL DROS BROESU EICH DATA PERSONOL

Y sail gyfreithiol dros broesu eich data personol yw ei fod yn 'angenrheidiol i gyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio yn y rheolydd', Erthygl 6(1)(f) o'r GDPR. Y buddion cyfreithlon yw'r rheini gan CGGC i asesu eich cymhwysedd am gymorth gan brosiect Catalydd Cymru ac i gyfathrebu â chi ar gyfer gweinyddu'r cymorth hwnnw, os byddwch yn llwyddiannus.

PWY ARALL FYDD YN DERBYN EICH DATA?

Ar gyfer Hyfforddwy: Ein gwerthuswyr allanol, Grŵp Cyngori* a Mudiad/au Cyfranogi rydych wedi'u haseinio iddynt

Ar gyfer mudiadau cyfranogi: Hyfforddwr/Hyfforddwy Cymeradwy, Grŵp Cyngori* a'n gwerthuswyr allanol

*Mae aelodau'r Grŵp Cyngori yn cynnwys cynrychiolwyr o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Chynghorau Gwirfoddol Sirol, Chanolfan Cydweithredol Cymru, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Pride Cymru ac Anabled Cymru

A FYDD EICH DATA YN CAEL EI ROI I RYWUN Y TU ALLAN I'R ARDAL ECONOMAIDD EWROPEAIDD?

Na, ni fydd CGGC yn rhoi eich data i unrhyw un y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

AM BA HYD FYDDWN NI'N CADW EICH DATA?

Bydd eich data yn cael ei gadw dros oes y prosiect Catalydd Cymru (dwy flynedd ar hyn o bryd), ac am chwe mis ar ôl hynny.

Rydym wedi'n hymrwymo'n llawn i ddiogelwch gwybodaeth ac yn cymryd camau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei gweld heb awdurdod, ei cholli, ei chamddefnyddio, ei diwygio neu ei llygru. Mae gennym weithdrefnau ffisegol, electronig a rheoli ar waith i ddiogelu'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni, gan gynnwys amgryptio a defnyddio ffugenwau.

PA HAWLIAU SYDD GENNYCH CHI?

Mae gennych lawer o hawliau mewn perthynas â'r data personol sydd gennym amdanoch. Nid yw'r holl hawliau'n berthnasol ym mhob achos. Os ydych am arfer unrhyw un o'r hawliau, cysylltwch â ni yn y ffyrdd a nodir yn yr adran 'Pwy ydym ni?':

- Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi.
- Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch y credwch sy'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu o'ch gwybodaeth bersonol lle rydyn ni'n dibynnu ar fuddiant cyfreithlon i wneud hynny a'ch bod chi'n credu bod eich hawliau a'ch buddiannau eich hun yn gorbwyso ein rhai ni a'ch bod chi'n dymuno i ni stopio. Fodd bynnag, gall fod rhesymau cyfreithiol neu resymau dilys eraill pam mae angen i ni gadw neu ddefnyddio'ch gwybodaeth. Os felly, byddwn yn ystyried eich cais ac yn egluro pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol wrth i ni ystyried eich cais.
- Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu os ydym yn prosesu'ch data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Os nad ydych am gael cyfathrebiadau gennym mwyach, cysylltwch â ni. Byddwn yn rhoi'r gorau i anfon cyfathrebiadau atoch ond byddwn yn parhau i gadw cofnod ohonoch chi a'ch cais i beidio â chlywed gennym. Pe byddem yn dileu eich holl wybodaeth o'n cronfeydd data marchnata uniongyrchol, ni fyddai gennym gofnod o'r ffaith eich bod wedi gofyn inni beidio â chyfathrebu â chi ac mae'n bosibl y byddwch yn dechrau derbyn cyfathrebiadau gennym ar ryw adeg yn y dyfodol, os ydym yn cael eich manylion o ffynhonnell wahanol.
- Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth. Gelwir hyn hefyd yn hawl i gael eich anghofio neu eich dileu. Ni fyddwn bob amser yn cytuno i wneud hyn ym mhob achos, oherwydd gall fod rhesymau cyfreithiol neu resymau dilys eraill pam mae angen i ni gadw neu ddefnyddio'ch gwybodaeth. Os felly, byddwn yn ystyried eich cais ac yn egluro pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol wrth i ni ystyried eich cais.
- Pan mae ein gwaith o brosesu'ch gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar eich caniatâd, mae gennych yr hawl i'w dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cysylltwch â ni os dymunwch wneud hynny.
- Efallai bod gennych chi'r hawl i gael gafael ar yr wybodaeth bersonol rydych chi wedi'i rhoi inni mewn fformat y gellir ei haildefnyddio'n hawdd a gofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol hon yn yr un fformat i fudiadau eraill. Cysylltwch â ni i ddarganfod a yw'r hawl hon yn berthnasol i chi.

AT BWY DDYLECH GWYNO?

Yn y lle cyntaf, dylech gwyno i Swyddog Diogelu Data CGGC, fel yr amlinellir yn yr adran 'Pwy ydym ni?', ond mae gennych yr hawl i gyflwyno cŵyn i'r Rheolydd Diogelu Data yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a gellir cysylltu â nhw ar 0303 123 1113 neu ar e-bost: <https://ico.org.uk/global/contact-us/email/> neu yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

NEWIDIADAU I'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 5 Ionawr 2022. Rydym yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a gallwn ei newid o bryd i'w gilydd drwy ddiweddarau'r dudalen hon i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ein harferion preifatrwydd. Anogir chi i wirio'r hysbysiad preifatrwydd hwn am unrhyw newidiadau yn rheolaidd.